



Y Weinyddiaeth
Gyfiawnder

Cynllun Llog ar Gyfrifon Cleientiaid Cyfreithwyr

**Cyllid ar gyfer system gyfiawnder
gynaliadwy**



Llywodraeth y Deyrnas Unedig
Y Weinyddiaeth Gyfiawnder

Cynllun Llog ar Gyfrifon Cleientiaid Cyfreithwyr

Cyllid ar gyfer system gyfiawnder gynaliadwy

Cyflwynwyd i Senedd y DU gan yr Arglwydd Ganghellor a'r Ysgrifennydd
Gwladol dros Gyfiawnder trwy Orchymyn Ei Fawrhydi

Ionawr 2026



© **Hawlfraint y Goron 2026**

Mae'r cyhoeddiad hwn wedi'i drwyddedu o dan telerau'r Drwydded Llywodraeth Agored fersiwn 3.0, oni bai lle nodir fel arall. I weld y drwydded hon, ewch i nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3

Lle'r rydym wedi nodi bod gwybodaeth o dan hawlfraint trydydd parti, bydd angen ichi gael caniatâd gan y deiliad hawlfraint cysylltiedig.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn www.gov.uk/official-documents

Dylech anfon unrhyw ymholiadau ynghylch y cyhoeddiad hwn i additionalfundingconsultation@justice.gov.uk.

ISBN 978-1-5286-6151-5

E03497892 01/26

Argraffwyd ar bapur sy'n cynnwys o leiaf 40% o ffeibr a ailgylchwyd.

Argraffwyd yn y DU gan HH Associates Ltd. ar ran
Rheolydd Swyddfa Llyfrfa Ei Fawrhydi

Am yr ymgynghoriad hwn

I:	Darparwyr, rheoleiddwyr a chyrrff cynrychiadol gwasanaethau cyfreithiol, cyrrff proffesiynol, cleientiaid, grwpiau defnyddwyr, y sector bancio a chwmnïau sy'n darparu cyfrifon cleientiaid neu gyfrifon a reolir gan drydydd parti ar ran darparwyr gwasanaethau cyfreithiol.
Hyd:	07/01/2026 i 09/02/2026
Ymholiadau (yn cynnwys ceisiadau i gael y papur mewn fformat gwahanol) i:	Y Tîm Cyllid Ychwanegol Y Weinyddiaeth Gyfiawnder / Ministry of Justice 102 Petty France Llundain / London SW1H 9AJ E-bost: additionalfundingconsultation@justice.gov.uk
Sut i ymateb:	Anfonwch eich ymateb erbyn 09/02/2026 at: Y Tîm Cyllid Ychwanegol Y Weinyddiaeth Gyfiawnder / Ministry of Justice 102 Petty France Llundain / London SW1H 9AJ E-bost: additionalfundingconsultation@justice.gov.uk
Ffyrdd ychwanegol i chi roi'ch barn:	Cynhelir cyfres o gyfarfodydd i randdeiliaid hefyd. Am ragor o wybodaeth, defnyddiwch y manylion cyswllt ar gyfer "Ymholiadau" uchod.

Cynnwys

Rhagair	3
Crynodeb gweithredol	5
Cyflwyniad	6
Cefndir	7
Cynlluniau llog cronfeydd cleientiaid mewn awdurdodaethau eraill	7
Mathau o gyfrifon cleientiaid yng Nghymru a Lloegr	8
Rheoleiddio cyfrifon cleientiaid	8
Defnydd ffyrmiau cyfreithwyr o log ar gyfrifon cleientiaid	9
Cynllun llog ar gyfrifon cleientiaid cyfreithwyr	11
1. Cyflwyno cynllun llog ar gyfrifon cleientiaid cyfreithwyr (ILCA)	11
2. Gofynion y cynllun, y broses a'r effeithiau	16
3. Gweinyddu'r cynllun	21
4. Monitro a gorfodi	25
Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ar gyfer y Cynllun ILCA	27
Ystyriaethau Cydraddoldeb	27
Mae eich safbwyntiau yn bwysig	29
Holiadur	30
Gwybodaeth amdanoch chi	33
Manylion cyswllt/Sut i ymateb	34
Cwynion neu sylwadau	34
Copiâu ychwanegol	34
Grwpiau cynrychiadol	34
Cyfrinachedd	34
Egwyddorion ymgynghori	36

Cynllun Llog ar Gyfrifon Cleientiaid Cyfreithwyr
Cyllid ar gyfer system gyfiawnder gynaliadwy

Rhagair

Awdurdodaeth Cymru a Lloegr yw un o'r awdurdodaethau gwasanaethau cyfreithiol pennaf yn y byd. Mae ein sector cyfreithiol yn cyfrannu biliynau o bunnoedd i'r economi, gan gyflogi cannoedd o filoedd o bobl ledled y wlad. Mae hefyd yn cefnogi'r economi yn ehangach, gan roi'r hyder i gwmnïau gynnal busnes. Mae'r llwyddiant hwn yn deillio o system gyfiawnder sydd wedi'i seilio ar gyfraith Cymru a Lloegr, ein farnwriaeth annibynnol, ac ein llysoedd masnachol sy'n enwog drwy'r byd. Rydym hefyd yn arwain ar arloesi cyfreithiol, gydag arloeswyr technoleg y gyfraith (lawtech) ym maes datrys anghydfodau'n ddigidol a gwasanaethau cyfreithiol sydd wedi'u sbarduno gan ddeallusrwydd artifisial (AI).

Mae cynnal ein henw da am ragoriaeth mewn gwasanaethau cyfreithiol, ac ein statws fel un o'r awdurdodaethau mwyaf deniadol ar gyfer busnes, yn dibynnu ar lwyddiant y system gyfiawnder yn ei chyfanrwydd. Tra bod ein gwasanaeth cyfreithiol masnachol a rhyngwladol yn ffynnu, mae rhannau eraill o'n system yn wynebu pwysau difrifol.. Mae'r llywodraeth hon wedi etifeddu system troseddol a sifil sydd mewn argyfwng, lle mae blynyddoedd o fuddsoddi annigonol wedi gadael eu hôl. Mae gennym adeiladau llys yn disgyn yn ddarnau, oedi yn y llysoedd sifil a'r tribiwnlysoedd, a rhwystrau sylweddol i fynediad at gyfiawnder i lawer o bobl a fusnesau.

Ers dod i rym, rydym wedi ei gymryd yn genhadaeth i adfer hyder y cyhoedd yn ein system gyfiawnder ac rydym yn falch o'r cynnydd rydym yn ei wneud. Rydym yn ategu'r uchelgais hwn trwy fuddsoddi biliynau o bunnoedd ychwanegol yn ein llysoedd, carchardai, cymorth cyfreithiol, a gwasanaethau cefnogi cyfreithiol trwy gydol cyfnod y Senedd hon. Ond mae'n rhaid i ni wneud mwy i sicrhau ei chynaliadwyedd yn y tymor hir.

Mae cwmnïau cyfreithiol yn ffynnu pan fo'r system yn gadarn, felly mae'n dilyn yn naturiol y dylai'r cwmnïau hyn gyfrannu at gryfhau'r system gyfiawnder. Rydym yn cynnal yr ymgynghoriad hwn i ddeall sut gall y proffesiwn cyfreithiol helpu i gefngi ein nod cyffredin: system gyfiawnder sy'n deg, yn hygyrch ac yn addas i'r diben.

Mae'n ceisio barn ar gynnig i gyflwyno cynllun Llog ar Gyfrifon Cleientiaid (ILCA) fel ffordd deg a chymesur i'r sector cyfreithiol gyfrannu i'r system gyfiawnder y mae'n dibynnu arni. Ar hyn o bryd, mae llawer o ffyrniau yn cadw'r llog a gynhyrchwyd ar gyfrifon cleientiaid fel incwm. Credwn y gellir gwneud defnydd gwell o'r incwm i gryfhau ein system gyfiawnder. Nid yw hwn yn syniad newydd. Mae cynlluniau tebyg wedi rhedeg yn llwyddiannus am ddegawdau mewn gwledydd fel yr Unol Daleithiau, Canada, Awstralia a Ffrainc. Mae'r modelau hyn wedi cael effaith fesuradwy, yn cyllido mynediad at gyfiawnder a gwasanaethau cymorth cyfreithiol.

Rydym wedi ymrwymo i gael hyn yn iawn ac i gydweithio â'r sector cyfreithiol i sicrhau bod y dull gweithredu yn cael ei gynllunio mewn ffordd sy'n gymesur ac yn effeithiol. Rwy'n annog unrhyw un sydd â diddordeb i leisio eu barn fel y gallwn cryfhau'r system gyfiawnder yn y ffordd orau bosib i sicrhau dyfodol cynaliadwy.

A handwritten signature in black ink, appearing to read 'David', followed by a long horizontal flourish that ends in a small loop.

Y Gwir Anrhydeddus David Lammy AS

Dirprwy Brif Weinidog, Arglwydd Ganghellor
ac Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder

Crynodeb gweithredol

Mae'r ddogfen hon yn amlinellu cynigion y Llywodraeth i godi arian drwy gynllun llog ar gyfrifon cleientiaid cyfreithwyr (ILCA) yng Nghymru a Lloegr.

O dan cynnig y Llywodraeth, byddai cyfran o'r llog a enillwyd ar gyfrifon cleientiaid cyfreithwyr, yn cynnwys Cyfrifon a Reolir gan Drydydd Parti, yn cael ei chadw gan y Llywodraeth. Rydym hefyd yn ystyried a ddylid cynnwys cyfrifon cleientiaid unigol o fewn cwmpas y cynllun er mwyn osgoi creu bwlch yn y rheolau, ac i sicrhau bod effeithiau'r cynllun yn cael eu cydbwyso'n deg rhwng yr holl fathau o ffyrniau cyfreithwyr a chleientiaid. Byddai ffyrniau yn cadw cyfran o'r llog sy'n weddill, a byddai hon yn dal yn ddarostyngedig i reolau presennol y sector ar log cleientiaid ac unrhyw gytundeb a wnaed rhwng ffyrniau cyfreithwyr a'u cleientiaid. Byddai'n ofynnol i ffyrniau cyfreithwyr ddal arian cleientiaid mewn cyfrifon sy'n cwrdd ag amodau a bennwyd o dan y cynllun. Byddai gweinyddwr cynllun yn cael ei sefydlu i sicrhau bod y cynllun yn rhedeg yn rhwydd. Disgwylir y bydd y cynnig yn creu ffynhonnell gyllid hollbwysig i gynnal a gwella'r gallu i ddarparu gwasanaethau yn ein system gyfiawnder.

Bydd y Llywodraeth yn falch o glywed barn darparwyr ac ymarferwyr gwasanaethau cyfreithiol, rheoleiddwyr, cyrff proffesiynol, cleientiaid a grwpiau defnyddwyr, y sector bancio a chwmnïau sy'n darparu cyfrifon arian cleientiaid neu gyfrifon a reolir gan drydydd parti ar ran ffyrniau cyfreithwyr, gweithredwyr yn y sector cynghori a phawb sydd â diddordeb yn y cynnig hwn.

Cyflwyniad

Mae'r papur hwn yn amlinellu cynigion ar gyfer ymgynghori ar Gynllun Llog ar Gyfrifon Cleientiaid Cyfreithwyr (Cynllun ILCA) a fyddai'n cael ei ddefnyddio i ariannu gwaith cyfiawnder pwysig, a helpu i gadw ein system gyfiawnder ar sylfaen gadarn, yn awr ac yn y dyfodol. Mae'r ymgynghoriad hwn wedi'i anelu at ddarparwyr ac ymarferwyr gwasanaethau cyfreithiol, rheoleiddwyr a chyrff proffesiynol, yng Nghymru a Lloegr, cwmnïau sy'n darparu cyfrifon arian cleientiaid neu gyfrifon a reolir gan drydydd parti ar ran ffyrniau cyfreithwyr, cleientiaid a grwpiau defnyddwyr, gweithredwyr yn y sector cynghori a phawb sydd â diddordeb yn y cynigion hyn.

Mae fersiwn Saesneg o'r papur ymgynghori hwn ar gael yn: <https://consult.justice.gov.uk/>

Mae ein hasesiad cychwynnol o'r effaith ar gydraddoldeb yn dangos na fydd cydraddoldeb i grwpiau cleientiaid, gan gynnwys menywod, lleiafrifoedd ethnig a phobl anabl yn debygol o gael eu heffeithio arnynt. Mae'r cynigion yn debygol o arwain at gostau ychwanegol i fusnesau yn y sector gwasanaethau cyfreithiol, ac mae'r ymgynghoriad yn ceisio mwy o wybodaeth i gyfarwyddo asesiad o'r effaith ar unrhyw ddyluniad terfynol o'r cynllun.

Anfonir copïau o'r papur ymgynghori i'r canlynol:

- Y Bwrdd Gwasanaethau Cyfreithiol, a'r rheoleiddwyr gwasanaethau cyfreithiol
- Yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol
- Cymdeithas y Gyfraith
- Cyngor y Bar
- Sefydliad Siartredig y Gweithredwyr Cyfreithiol (CILEx)
- Sefydliad Siartredig yr Atwrneiod Nodau Masnach
- Sefydliad Siartredig yr Atwrneiod Patentau
- Cymdeithas y Cyfreithwyr Costau
- Cymdeithas y Trawsgludwyr Trwyddedig

Fodd bynnag, nid oes bwriad i'r rhestr hon fod yn un gyflawn neu derfynol a byddwn yn falch o gael ymatebion oddi wrth unrhyw un sydd â diddordeb yn y pwnc sydd dan sylw yn y papur hwn neu sydd â barn amdano.

Cefndir

Cynlluniau llog cronfeydd cleientiaid mewn awdurdodaethau eraill

Mae cynlluniau llog cronfeydd cleientiaid yn agwedd ar fusnes sydd wedi'i hen sefydlu a'i derbyn mewn nifer o awdurdodaethau. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn cadw 100 y cant o'r llog ar rai cyfrifon cleientiaid ar gyfer ariannu dibenion cyhoeddus, fel mynediad at gyfiawnder.

Daeth cynlluniau o'r fath i'r golwg gyntaf yn Ffrainc ym 1957, wrth greu'r Caisse Autonome des Règlements Pécuniaires des Avocats (CARPA), a gyflwynwyd yn wreiddiol i warantu bod arian cleientiaid yn cael ei drafod yn ddiogel. O dan CARPA, mae cyfreithwyr yn gorfod cadw arian cleientiaid mewn cyfrifon a gaiff eu rheoli gan gyrff cynlluniau rhanbarthol sy'n gysylltiedig â Chymdeithasau Bar rhanbarthol. Cyrff y cynlluniau fydd yn penderfynu'r cyfraddau llog sy'n gymwys i'w cyfrifon drwy negodi â'r sefydliadau ariannol sy'n dal y cyfrifon. Bydd y llog a gynhyrchir yn cael ei ddefnyddio'n gyntaf i dalu am gostau rhedeg CARPA, a'r gweddill yn ariannu cymorth cyfreithiol, cymorth yn nalfeydd yr heddlu a rhaglenni cymdeithasol a hyfforddiant proffesiynol i gyfreithwyr.

Yn y 1960au, roedd cynlluniau tebyg (sy'n amrywio o ran eu dyluniad) wedi dechrau codi yn Nhaleithiau a Thiriogaethau Awstralia mewn ymateb i newidiadau mewn rheoliadau bancio a oedd yn caniatáu i fanciau gadw'r llog a gronnwyd ar gyfrifon cleientiaid. Yn Victoria, mae'n ofynnol i ffyrniau ddal eu cyfrifon cleientiaid cyfun gyda banc a gymeradwywyd, ac mae llog yn cael ei dalu i'r Gronfa Dibenion Cyhoeddus sy'n helpu i reoleiddio'r proffesiwn ac yn darparu grantiau, drwy sefydliadau fel Sefydliad Cyfraith Victoria, ar gyfer diwygio'r gyfraith, ymchwil gyfreithiol ac addysg gyfreithiol yn y gymuned.

Mae cynlluniau llwyddiannus tebyg wedi'u cyflwyno hefyd ledled yr Unol Daleithiau a Chanada. Yn British Columbia ac Ontario, mae ffyrniau'n gorfod defnyddio banciau sy'n cwrdd â meini prawf cymhwysedd, yn cynnwys talu cyfraddau llog sy'n debyg i'r rheini a gynigir i gwsmeriaid tebyg nad ydynt yn dod o dan y cynllun (safon y "Cwsmer Gorau" neu'r "Gyfradd Gyffelyb"). Yn British Columbia, mae arian yn cael ei ddrynnu drwy grantiau gan Sefydliad Cyfraith British Columbia i bum maes: cymorth cyfreithiol, addysg gyfreithiol, ymchwil cyfreithiol, diwygio'r gyfraith a llyfrgelloedd y gyfraith. Yn Ontario, mae 75% o'r refeniw yn mynd i Legal Aid Ontario, a'r gweddill yn ariannu addysg gyfreithiol ac ymchwil a llyfrgelloedd y gyfraith drwy Sefydliad Cyfraith Ontario. Yn UDA, mae manylion y cynlluniau yn amrywio o dalaith i dalaith, ond mae Cymdeithas y Bar America wedi adrodd

bod mwy na 90% o'r cronfeydd ledled y wlad yn rhai sy'n cynorthwyo swyddfeydd cymorth cyfreithiol a rhaglenni pro bono.¹

Mathau o gyfrifon cleientiaid yng Nghymru a Lloegr

Mae llawer o ddarparwyr gwasanaethau cyfreithiol yng Nghymru a Lloegr yn trafod arian cleientiaid wrth gyflawni eu gwasanaethau, yn enwedig mewn meysydd lle maent yn gweithredu fel cyfryngwyr mewn trafodiadau ariannol. Er enghraifft, mae twrneiod neu drawsgludwyr trwyddedig wedi eu hawdurdodi i dderbyn a dal symiau mawr o arian ar ran eu cleient mewn trafodiadau trawsgludo eiddo. Yn yr un modd, wrth brofi ewyllys neu weinyddu ystad, mae ffyrniau'n gallu dal arian dros dro o ystad yr ymadawedig cyn ei ddosbarthu i fuddiolwyr. Wrth ymglyfreitha, gall twrneiod ddal arian setlo neu arian sicrhau costau mewn cyfrifon cleientiaid sydd i'w cadw ar wahân i arian y ffyrn yng nghyfrif y swyddfa. Fel arfer, byddai'r cyfrifon cleientiaid yn cronni llog yn ôl pa mor hir y mae'r arian yn cael ei ddal.

Mae darparwyr gwasanaethau cyfreithiol yn defnyddio gwahanol fathau o gyfrifon cleientiaid i reoli arian cleientiaid. Y math mwyaf cyffredin yw un lle mae'r darparwr yn dal arian ar ymddiriedolaeth mewn cyfrif cleientiaid cyfun ac mae'r ffyrn yn rhoi arian ar gadw ynddo a gafwyd gan nifer o gleientiaid. Mewn rhai achosion, fel y rheini sy'n ymwneud â thrafodiadau o werth uchel, ar gyfer profiant, neu ar gais y cleient, gall ffyrniau roi arian y cleient mewn cyfrif cleient unigol dynodedig o dan enw'r cleient. Dewis arall yw i gleientiaid roi eu harian yn uniongyrchol mewn Cyfrif a Reolir gan Drydydd Parti. O dan y trefniant hwn, nid y ffyrn cyfreithwyr sy'n dal yr arian; yn hytrach, mae'r arian yn cael ei ddal ar ran y ffyrn a'r cleient gan ddarparwr Cyfrifon a Reolir gan Drydydd Parti (TPMA) sy'n cael ei reoleiddio gan yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol.

Rheoleiddio cyfrifon cleientiaid

Mae gwahanol reolau yn gymwys i'r gwahanol broffesiynau cyfreithiol a reoleiddir yng Nghymru a Lloegr o ran y ffordd i drafod y llog a enillwyd ar arian cleientiaid mewn cyfrifon cleientiaid.

Bydd arian y rhan fwyaf o gleientiaid yng Nghymru a Lloegr yn ddarostyngedig i reolau sydd wedi eu gosod gan yr Awdurdod Rheoleiddio Cyfreithwyr (SRA). O dan y rheolau hyn, rhaid i ffyrniau roi cyfrif i gleientiaid am "swm teg" o log a enillwyd ar arian cleientiaid. Nid oes diffiniad clir o'r term "teg" yn Rheolau Cyfrifon yr SRA, fel bod hyblygrwydd i ffyrniau o ran y swm a ddychwelir. Gall darparwr gwasanaethau cyfreithiol wneud

¹ Trosolwg IOLTA, Cymdeithas y Bar America: Trosolwg
https://www.americanbar.org/groups/interest_lawyers_trust_accounts/overview/

cytundeb ysgrifenedig â chleientiaid ar drefniant gwahanol, ar yr amod bod y cleient yn cael digon o wybodaeth i roi cydsyniad gwybodus.

Mae Cyngor y Trawsgludwyr Trwyddedig (CLC) a Chymdeithas Cyfrifwyr Siartredig Cymru a Lloegr (ICAEW) (ymarferwyr profiant) yn cyfarwyddo bod llog a enillwyd i gael ei ddychwelyd i'r cleient, oni bai bod y cleient wedi rhoi cydsyniad ysgrifenedig ar sail gwybodaeth i dderbyn trefniant gwahanol.

Mae Rheoliadau CILEx (gweithredwyr cyfreithiol) yn datgan bod rhaid i'r 'cyfran briodol' o log gael ei dychwelyd i gleientiaid, oni bai ei fod o dan swm de minimis a bennir gan CILEx. Mae Meistr y Trwyddedau (notariaid) yn ei gwneud yn ofynnol bod llog yn cael ei dalu i gleientiaid mewn amgylchiadau penodol.

Nid yw'r Bwrdd Rheoleiddio Eiddo Deallusol (IPReg) yn gosod rheol benodol ar dalu llog gan ddibynnu, yn lle hynny, ar egwyddorion cyffredinol sy'n mynnu bod arian cleientiaid yn cael ei ddiogelu a'i drafod er budd pennaf y cleient.

Mae bargyfreithwyr, a reoleiddir gan Fwrdd Safonau'r Bar (BSB), a chyfreithwyr costau, a reoleiddir gan Fwrdd Safonau Cyfreithwyr Costau (CLSB), yn cael eu gwahardd gan mwyaf rhag dal neu reoli arian cleientiaid.

Yn aml, defnyddir Cyfrifon a Reolir gan Drydydd Parti (TPMAs) fel dewis amgen yn lle cyfrifon cleientiaid traddodiadol, ac maent wedi'u rheoleiddio gan yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol. Rhaid i ddarparwyr gwasanaethau cyfreithiol hefyd sicrhau bod cleientiaid yn cael eu hysbysu'n llawn am y ffordd y bydd eu harian yn cael ei ddal, am eu hawliau i herio taliadau ac am eu hawl i gael ad-daliadau. Tra bydd arian yn cael ei ddal mewn TPMA, ni fydd yn cael ei ystyried fel arfer yn "arian cleient" o dan reolau'r mwyafrif o reoleiddwyr, bydd cleientiaid yn cadw perchnogaeth lesiannol a gallant fod â hawl o hyd i dderbyn llog neu ad-daliadau yn ôl telerau'r trefniant (er y bydd darparwyr TPMA yn cadw'r llog a gynhyrchir fel arfer).

Defnydd ffyrniau cyfreithwyr o log ar gyfrifon cleientiaid

Comisiynwyd ymchwil gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn 2024 (arolwg o 604 o ffyrniau cyfreithwyr) er mwyn deall beth mae ffyrniau yn ei wneud â'r llog o'u cyfrifon cleientiaid cyfun a pha mor ddibynnol y maent ar yr arian hwnnw. Mae'r adroddiad llawn ar gael yn <https://consult.justice.gov.uk/>. Yn fyr:

- Roedd 33 y cant o'r ffyrniau yn yr arolwg bob amser yn anfon tâl am yr holl log o gyfrifon cleientiaid cyfun, roedd 53 y cant yn gwneud hynny'n rhannol neu weithiau, a 23 y cant (heb fod yn annibynnol ar ei gilydd) yn defnyddio'r llog i dalu costau. Roedd 55 y cant yn gosod trothwy de minimis ar gyfer dychwelyd llog i gleientiaid os oedd yn uwch na'r trothwy hwnnw (modd o £20).

Cynllun Llog ar Gyfrifon Cleientiaid Cyfreithwyr
Cyllid ar gyfer system gyfiawnder gynaliadwy

- Nododd ffyrmiau fod teimlad cyffredinol nad yw'r rhan fwyaf o gleientiaid yn disgwyl cael unrhyw log yn ôl, yn aml am fod yr arian yn cael ei ddal am gyfnod byr.
- Atebodd 92 y cant o ffyrmiau nad oeddent yn dibynnu ar log ar gyfrifon cleientiaid am gynaliadwyedd eu busnes. Hefyd, dywedodd 94 y cant ohonynt na fyddai colli'r llog yn cael dim effaith neu effaith fach ar eu ffyrm.
- Roedd 89 y cant o ffyrmiau heb wneud a/neu heb fwriad i wneud newidiadau yn eu defnydd o log cleientiaid mewn ymateb i gyfraddau llog uwch; ac
- Roedd 4 y cant o ffyrmiau yn defnyddio llog ar gyfer gweithgareddau pro bono/elusennol.

Cynllun llog ar gyfrifon cleientiaid cyfreithwyr

1. Cyflwyno cynllun llog ar gyfrifon cleientiaid cyfreithwyr (ILCA)

Diben y cynllun

Mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn gyfrifol am swyddogaethau o lawer math, yn cynnwys llysoedd a thribiwnlysoedd, carchardai, gwasanaethau prawf a chymorth cyfreithiol. Bydd arian a godir trwy'r cynllun ILCA yn helpu i gryfhau'r system gyfiawnder.

Ar hyn o bryd, nid ydym yn cynnig neilltuo incwm y cynllun at ddibenion penodol, na'i waddoli i gyrff sy'n gwneud grantiau, fel y gwneir mewn rhai awdurdodaethau eraill. Y rheswm am hyn yw bod angen buddsoddi cyson mewn sawl maes yn y gwasanaethau cyfiawnder craidd yng Nghymru a Lloegr. Yn y cyd-destun hwn, byddai clustnodi incwm o'r ILCA at ddibenion cyfyng ar y dechrau yn gallu llesteirio ei effaith lesol. Yn lle hynny, gellir cyfeirio'r arian at y meysydd lle mae'r angen mwyaf o fewn y system gyfiawnder.

Ffyrniau o fewn ei gwmpas

Byddai'r cynllun arfaethedig yn gymwys i arian sy'n cael ei ddal yn yr holl gyfrifon cleientiaid wrth ymgymryd â gweithgareddau gan ddarparwyr gwasanaethau cyfreithiol sy'n gweithredu yng Nghymru a Lloegr a reoleiddir o dan Ddeddf Gwasanaethau Cyfreithiol 2007. Nid yw strwythur cyfreithiol y darparwr (fel Partneriaethau Atebolrwydd Cyfyngedig, Cwmnïau Cyfyngedig neu Strwythurau Busnes Amgen) yn ystyriaeth berthnasol na domisil y cleient sydd â'i arian yn cael ei ddal yn y cyfrif cleientiaid. O dan y cynnig hwn, byddai cyfran o'r llog a gynhyrchir yn y cyfrifon cleientiaid hyn yn cael ei thalu i'r Llywodraeth.

Cyfrifon sydd o fewn cwmpas y cynlluniau

Mae'r defnydd o gynlluniau cyfrifon cleientiaid yn amrywio rhwng awdurdodaethau. At ei gilydd, mae'r cynlluniau yn UDA, British Columbia, Awstralia ac Ontario yn targedu cyfrifon cyfun yn unig. Mae'r cyfrifon hyn yn cydgasglu symiau o arian cleientiaid a fyddai un ai'n rhy fach ar eu pen eu hunain neu'n cael eu dal am gyfnod rhy fyr i gynhyrchu llog net i'r cleient. Fel arfer, bydd cyfreithwyr yn yr awdurdodaethau hyn yn cynghori eu cleientiaid ynghylch rhoi eu harian mewn cyfrif ar wahân sy'n ennill llog sydd y tu allan i gwmpas y

cynlluniau hyn, os yw'n debygol y gallai gynhyrchu llog net o unrhyw dreuliau.² Yn Ffrainc, ar y llaw arall, mae cyfreithwyr yn gorfod rhoi'r holl arian a geir gan gleientiaid mewn cyfrif CARPA. Yr hyn sy'n gyffredin i'r cynlluniau hyn yw eu bod yn cadw 100 y cant o'r llog a gynhyrchwyd ar y cyfrifon perthnasol.

Rydym yn ymgynghori ar ddyluniad i'r cynllun sydd yn y tir canol rhwng y dulliau gweithredu hyn mewn gwledydd tramor. Rydym yn ystyried a ddylai ffyrniau a chleientiaid gael cadw rhywfaint o'r llog a gynhyrchir ar eu harian mewn cyfrifon cyfun. Fodd bynnag, er mwyn tegwch, rydym am sicrhau na fydd modd osgoi'r cynllun yn llwyr drwy roi arian cleientiaid mewn cyfrifon cleient unigol.

Felly, rydym yn ystyried cymhwyso'r cynllun at arian cleientiaid sy'n cael ei ddal mewn cyfrifon cyfun ac mewn cyfrifon unigol. Byddai hyn yn berthnasol lle mae'r darparwr yn dal arian yn uniongyrchol ar ymddiriedolaeth mewn cyfrif a gynigiwyd gan fanc neu gymdeithas adeiladu, a hefyd lle mae'r darparwr yn gwneud trefniadau gyda'r cleient i ddefnyddio Cyfrif a Reolir gan Drydydd Parti. Byddai arian cleientiaid sy'n gysylltiedig â'r holl "weithgareddau cyfreithiol neilltuedig" o dan Ddeddf Gwasanaethau Cyfreithiol 2007 yn dod o fewn cwmpas y cynllun. Fodd bynnag, byddwn yn falch o gael sylwadau ynghylch a oes unrhyw wasanaethau eraill a gyflawnir gan ddarparwyr gwasanaethau cyfreithiol sy'n defnyddio arian cleientiaid a ddylai gael eu cynnwys yn y cynllun hefyd. Ymhellach, rydym yn cydnabod bod llawer o resymau pam bod cyfrifon cleient unigol yn cael eu hagar ar ran cleientiaid, ac rydym yn croesawu barn ar p'un a oes achosion lle byddai cyfrifon o'r fath y tu allan i gwmpas y cynllun.

Cwestiynau:

1. A oes gennych unrhyw sylwadau am gwmpas arfaethedig y cynllun?
2. Ar wahân i "weithgareddau cyfreithiol neilltuedig", a oes unrhyw waith arall a gyflawnir gan ddarparwyr gwasanaethau cyfreithiol sy'n galw am ddal arian cleientiaid? A ddylai hyn fod y tu mewn neu y tu allan i gwmpas y cynllun?
3. A oes mathau eraill o gyfrif a ddefnyddir i ddal arian cleientiaid a ddylai fod o fewn cwmpas y cynllun?
4. A oes unrhyw fathau o gyfrif unigol a ddefnyddir ar gyfer dal arian cleientiaid na ddylid eu cynnwys o fewn cwmpas cynllun ILCA? A pham?

² American Bar Association: Model Rules of Professional Conduct - Rule 1.15; British Columbia Law Society Trust Accounting Handbook: Trust-Accounting-Handbook.pdf; Law Society of Ontario Frequently asked questions about separate interest-bearing trust accounts (SIBA) - Lawyer | Law Society of Ontario;

Llog a gedwir ar gyfrifon cyfun

Ar lefel ryngwladol, yr arfer safonol ar gyfer cynlluniau llog cleientiaid yw bod y cyfan o'r llog a enillwyd ar gyfrifon cleientiaid cyfun yn cael ei drosglwyddo i'r cynllun. Os oedd y cynllun ILCA arfaethedig yn gwneud yr un fath, ni fyddai'r cleient unigol yn gweld colli swm sylweddol o log o reidwydd gan fod y symiau a gedwir yn y cyfrifon hyn fel arfer yn rhai bychain ac yn cael eu dal am gyfnod byr, sy'n aml o dan y trothwy ar gyfer ad-dalu gan ffyrniau. Byddai dyrannu'r cyfan o'r llog i'r cynllun yn ffordd i roi sicrwydd i gleientiaid a ffyrniau ac yn cynyddu'r arian ar gyfer buddsoddi cyhoeddus. Fodd bynnag, mae perygl y byddai hyn yn gallu cymell ffyrniau i adennill y costau am gynnal cyfrifon a thrafodiadau oddi wrth gleientiaid, a allai fod wedi'u hariannu gan y llog a enillir ar y cyfrif ar hyn o bryd. Gallai hyn godi pryderon ynghylch tegwch a gallai gynyddu'r gost gyffredinol am wasanaethau cyfreithiol.

Er mwyn cadw'r ddysgl yn wastad rhwng yr ystyriaethau hyn, rydym yn cynnig y dylai'r cynllun gadw 75 y cant o gyfanswm y llog a gynhyrchir ar gyfrifon cleientiaid cyfun. Credwn fod y dull hwn o weithredu yn cadw'r ddysgl yn wastad rhwng cynhyrchu refeniw sylweddol er lles y system gyfiawnder a gadael canran ddigonol o log y gellir ei ddychwelyd i gleientiaid lle y bo'n berthnasol. Fodd bynnag, byddwn yn falch o gael barn gan ymatebwyr ynghylch a ddylai'r cynllun gadw cyfran fwy, fel 90 y cant neu 100 y cant, er mwyn rhoi mwy o gymorth i gyflawni'r amcan o gynnal system gyfiawnder effeithiol.

Llog a gedwir ar gyfrifon unigol

Rydym yn cynnig y dylai'r cynllun gadw 50 y cant o'r llog a gynhyrchir ar gyfrifon cleientiaid unigol. Yn wahanol i gyfrifon cleientiaid cyfun, fe ddefnyddir cyfrifon unigol yn aml ar gyfer gwaith mwy dros dymor hirach, fel gwaith profiant, gwaith eiddo neu drafodiadau corfforaethol, sy'n gallu cynhyrchu llog sylweddol i gleientiaid. Hefyd, mae'r gost weinyddol o drefnu cyfrifon i gleientiaid unigol yn fwy i ffyrniau (ac i gleientiaid) na chynnal cyfrif cyfun cyffredinol.

Er bod y gyfradd arfaethedig o 50 y cant yn is na'r amrediad o 75–100 y cant rydym yn ymgynghori arno ar gyfer cyfrifon cyfun, rydym yn rhag-weld y byddai'n darparu ar gyfer cyfraniad teg i'r cynllun yn ogystal â lleihau'r cymhellion i ffyrniau ailgyfeirio arian cleientiaid i gyfrifon unigol er mwyn cymryd llai o ran yn y cynllun. Y nod wrth bennu'r gyfradd hon yw sicrhau bod cleientiaid yn gallu cadw cyfran ystyrlon o'r llog ar symiau sylweddol; cydnabod y baich gweinyddol uwch ar ffyrniau; a sicrhau incwm sylweddol i'r system gyfiawnder.

Cwestiwn:

5. Rydym yn cynnig y dylai'r cynllun gadw cyfran fwy o'r llog a gynhyrchir ar gyfrifon cleientiaid cyfun (75–100 y cant), a chyfran isar gyfradd o 50 y cant o'r llog ar gyfrifon cleientiaid unigol. A oes gennych unrhyw sylwadau am y cyfraddau hyn?

Trin y llog sy'n weddill

Er y byddai'r cynllun arfaethedig yn cyflwyno gofynion ar gyfer cyfrifon cleientiaid i hwyluso gweithrediad priodol y cynllun (gweler adran 2 isod), nid oes bwriad iddo gael blaenoriaeth dros y system reoleiddio bresennol i'r sector cyfreithiol ar drin llog cleientiaid. Credwn fod y rheoleiddwyr gwasanaethau cyfreithiol presennol mewn lle gwell i wneud rheolau i ffyrmiau ar log cleientiaid wrth roi sylw i ystyriaethau ehangach fel rhwymedigaethau moesegol a mesurau i ddiogelu cleientiaid. Rydym yn cynnig y byddai rheoleiddwyr gwasanaethau cyfreithiol yn parhau i osod rheolau ar y llog ar gyfrifon cleientiaid, yn cynnwys sut y dylid trin unrhyw log sy'n weddill, neu faint ohono a ddylai gael ei ddychwelyd i gleientiaid gan ffyrmiau, wedi i'r cynllun ILCA gadw ei gyfran. Yn achos y rhan fwyaf o ffyrmiau, o dan y rheolau presennol, byddai hyn yn golygu bod y llog sy'n weddill yn dal i gael ei reoli gan ofyniad yr Awdurdod Rheoleiddio Cyfreithwyr i ddyrannu "swm teg" i gleientiaid. Yn yr un modd, byddai darparwyr Cyfrifon a Reolir gan Drydydd Parti dal yn destun rheolau'r Awdurdod Ymddygiad Ariannol.


Cwestiwn:

6. A ydych yn rhag-weld unrhyw anawsterau wrth gadw'r rheolau presennol ar log cleientiaid mewn perthynas â'r llog sydd heb ei gadw gan y cynllun?

Model llog amgen

Un dewis arall yn lle cadw cyfradd safonol dan y cynllun ar gyfer y cyfan o'r llog ar gyfrifon cleientiaid fyddai mabwysiadu dull wedi'i seilio ar drothwyon. O dan y model hwn, byddai cleientiaid yn cael cyfran o'r llog a gynhyrchwyd ar eu harian uwchlaw trothwy penodedig, tra byddai llog o dan y trothwy hwnnw'n cael ei gadw gan y cynllun. Y sail resymegol dros ddull gweithredu o'r fath fyddai sicrhau, yn achos cleientiaid sydd â balans sylweddol neu symiau a gedwir dros gyfnod hir, eu bod yn cael budd uniongyrchol o'r llog a enillwyd, yn gyson ag egwyddorion tegwch a chymesuredd. Byddai hefyd yn caniatáu i'r cynllun barhau i gasglu symiau bach o log a fyddai fel arall yn achosi aneffeithlonrwydd gweinyddol o'u dyrannu i gleientiaid unigol.

Fodd bynnag, nid ydym yn bwriadu bwrw ymlaen â'r model hwn gan y byddai'r baich gweinyddol a'r cymhlethdod yn drech na'r manteision. Byddai gweithredu system wedi'i seilio ar drothwyon yn ei gwneud yn ofynnol i ffyrmiau cyfreithwyr a/neu sefydliadau ariannol gyfrifo'r llog ar gyfer pob cleient yn ei dro, cadw golwg i weld a yw'r trothwyon wedi'u cyrraedd a dyrannu taliadau yn unol â hynny. Byddai hyn yn creu beichiau gweithredol mwy o lawer o gymharu â'r dull cyfradd safonol ac yn cynyddu'r risg o wneud gwallau cyfrifo neu'r risg o dwyll. Er mwyn rheoli'r risgiau hyn, byddai angen cael mecanweithiau ychwanegol ar gyfer goruchwyllo a gorfodi, gan ychwanegu at gost a chymhlethdod y cynllun.



Disgwyliadau cleientiaid ynghylch llog

Mae tystiolaeth gyfyngedig yn dangos bod nifer mawr o gleientiaid yn anymwybodol bod llog yn cael ei ennill ar gyfrifon cleientiaid ac yn aml nad ydynt yn disgwyl ei gael.³ Ac mae'r cyfraddau arfaethedig ar gyfer y cynllun ILCA yn ceisio rhoi mynediad i gleientiaid at y llog sy'n cael ei gynhyrchu ar eu harian os yw'n swm sylweddol. Fel rhan o'r ymgynghoriad hwn, rydym yn gofyn am farn gan gleientiaid gwasanaethau cyfreithiol (a sefydliadau fel grwpiau defnyddwyr) ynghylch eu profiad a'u disgwyliadau mewn perthynas â llog a gynhyrchir ar eu harian, ac am effaith bosibl y cynllun ar gleientiaid.

³ Adroddiad Pye Taitt yn: <https://consult.justice.gov.uk/>; Ymchwil ymhlith defnyddwyr a gyflawnwyd ar ran yr Awdurdod Rheoleiddio Cyfreithwyr: <https://www.sra.org.uk/globalassets/documents/sra/research/thinks---consumer-deliberative-research.pdf>

Cwestiynau:

7. Ar gyfer gwaith cyfreithiol a gyflawnwyd ar eich rhan fel cleient, a ydych wedi cael (neu a ydych yn disgwyl cael) llog ar eich arian?
8. Os 'ydw' oedd yr ateb i'r cwestiwn blaenorol, faint o log rydych wedi'i gael/yn disgwyl ei gael?
9. A oes unrhyw effeithiau ar gleientiaid o ganlyniad i'r cynllun arfaethedig nad ydym wedi eu hystyried?

2. Gofynion y cynllun, y broses a'r effeithiau

Gofynion ar gyfer ffyrniau

Ar y cyfan, mae cynlluniau cyfrifon cleientiaid mewn gwledydd tramor yn gweithredu ar sail model talu llog awtomatig, lle mae'r llog a enillwyd ar gyfrifon ymddiriedolaeth cleientiaid cyfun yn cael ei gasglu'n uniongyrchol gan y sefydliad ariannol a'i anfon i gronfa gyhoeddus ddynodedig.

Ym mwyafrif yr awdurdodaethau sydd â chynllun, fel Ffrainc a Victoria, mae gweinyddwr cynllun yn negodi'r cyfraddau llog ar gyfer cyfrifon cleientiaid gyda'r sefydliadau ariannol sydd wedi'u cymeradwyo i ddal arian cleientiaid. Yn Ffrainc, bydd gweinyddwr CARPA yn cytuno ar y gyfradd gyda'r sefydliad ariannol sy'n dal ei gyfrif, tra bydd y Bwrdd Gwasanaethau Cyfreithiol yn Victoria yn contractio gyda nifer bach o fanciau a gymeradwywyd ac yn negodi'r gyfradd sy'n daladwy ar gyfrifon cleientiaid. Yn Ontario, mae ffyrniau yn gallu doddi arian cleientiaid mewn unrhyw fanc siartredig, swyddfa gynilion daleithiol neu gorfforaeth ymddiriedolaeth gofrestredig ar yr amod ei fod yn llofnodi cytundeb gyda Sefydliad Cyfraith Ontario i dalu llog ar "Gyfradd Gyffelyb" safonol sy'n sicrhau ei fod yn talu llog sy'n gyfwerth â'r hyn y mae'n ei gynnig i'w gwsmeriaid masnachol a ffefrir fwyaf.

Ar gyfer llog sy'n ddyledus i'r cynllun, rydym yn cynnig y dylai gael ei gasglu'n awtomatig o gyfrifon cleientiaid, fel sy'n gyffredin mewn awdurdodaethau eraill. Gwelwyd bod y dull hwn o weithredu yn effeithiol mewn mannau eraill a byddai'n lleihau'r gwaith gweinyddol i ffyrniau cyfreithwyr a lleihau'r risgiau o ran cydymffurfio.

O ran ble y gellir dal arian cleientiaid, rydym yn awgrymu cyflwyno gofyniad cyfreithiol i ddarparwyr gwasanaethau cyfreithiol roi arian cleientiaid sy'n berthnasol mewn cyfrifon sy'n cwrdd â gofynion craidd y cynllun (gweler y blwch isod). Er mwyn hyrwyddo cystadleuaeth yn y farchnad ac amrywiaeth yn y sector bancio, nid ydym yn bwriadu gorfodi'r defnydd o fanciau neu sefydliadau ariannol penodol. Byddai ffyrniau yn cadw eu

hyblygrwydd i ddewis ble i ddal arian cleientiaid, ar yr amod bod y cyfrifon yn cwrdd â gofynion y cynllun.

Gofynion ar gyfer darparwyr gwasanaethau cyfreithiol:

Galluoedd casglu: Bob hyn a hyn (yr amlder i'w benderfynu), rhaid i'r swm priodol o log gael ei drosglwyddo o'r cyfrif cleientiaid i gyfrif gweinyddwr y cynllun.

Amlder y llog: Rhaid i'r llog ar gyfer y cyfrif cleientiaid gael ei gyfrifo'n ddyddiol a'i gredydu i'r cyfrif bob hyn a hyn (yr amlder i'w benderfynu).

Cyfradd log cyffelyb: Rhaid i'r cyfrif cleientiaid a ddefnyddir gynnig cyfradd log sy'n gyffelyb â chyfrifon eraill gyda llog y mae'r banc yn eu cynnig sydd â balansau, risgiau a nodweddion tebyg.

Monitro: Rhaid i'r darparwr gwasanaethau cyfreithiol ddarparu gwybodaeth am y cyfrif oherwyd bod gweinyddwr y cynllun ei hangen i gyflawni gweithgareddau monitro a gorfodi (ceir mwy o wybodaeth am fonitro a gorfodi yn adran 4).

Cyfrifon gweinyddwyr: Efallai byddem hefyd yn ei wneud yn ofynnol i ddarparwr y cyfrif fod â'r gallu i ddarparu cyfrif gweinyddwr ar gyfer gweinyddwr y cynllun y byddai'r arian a gesglir yn cael ei anfon iddo, a hynny o fewn yr un banc/sefydliad ariannol. Ceir mwy o wybodaeth am hyn yn adran 3.

Yn y gofynion, rydym wedi canolbwyntio ar yr hyn sy'n hanfodol i'r cynllun allu gweithredu'n effeithiol, gan leihau'r beichiau ar ddarparwyr cyfrifon a'i gwneud yn haws felly i ffyrmydd ddod o hyd i gynhyrchion addas.

Rydym yn bwriadu trafod llog ar sail y dull "Cyfradd Gyffelyb". Yn gyffredinol, byddai'r llog ar gyfrifon y cynllun yn cael ei gyfrifo ar gyfraddau sy'n debyg i'r rheini a gynigir ar gyfrifon masnachol cyffelyb gan yr un banc/sefydliad. Mae'r dull hwn o weithredu yn cadw'r ddysgl yn wastad rhwng hyblygrwydd a thegwch. Mae'n osgoi gorfodi cyfraddau sydd wedi'u gosod yn ganolog a allai fod yn anaddas i amodau'r busnes gan helpu i gadw'r cyfraddau llog ar gyfrifon cleientiaid ar lefel resymol. Rydym yn ceisio barn am beth ddylai'r ffactorau perthnasol sy'n tanategu safon cyfradd gyffelyb fod. Gall enghreifftiau o ffactorau sy'n berthnasol i gyfradd gyffelyb gynnwys balansau cyfrifon, pa mor hir y disgwylir i'r arian gael ei ddal, a ffactorau risg yng nghyswllt adnewwyr.

Rydym yn ceisio barn ar y ffordd orau i gasglu llog ar gyfer y cynllun. Un opsiwn yw gwneud hi'n ofynnol i ddarparwyr gwasanaethau cyfreithiol sicrhau bod llog yn cael ei dalu i'r cynllun yn ôl yr amlder gofynnol, er enghraifft trwy drosglwyddiadau â llaw. Opsiwn arall yw gwneud hi'n ofynnol i ddarparwyr defnyddio cyfrifon cleientiaid sy'n talu llog i'r cynllun

yn awtomatig yn unig. Gall awtomeiddio leihau'r baich o ran cydymffurfio a cynnal gwiriadau, ond rydym eisiau deall a all darparwyr cyfrifon ddarparu'r nodwedd hon.


Nid ydym yn bwriadu cyflwyno unrhyw rwymedigaeth gyfreithiol ar ddarparwyr cyfrifon cleientiaid i gynnig cyfrifon sy'n cwrdd â'r manylebau hyn. Mae'r dechnoleg ar gyfer darparu cyfrifon sydd â'r nodweddion hyn yn beth cyffredin, ac rydym yn disgwyl y byddai'r farchnad yn datblygu ac yn cynnig cynhyrchion o'r fath er mwyn cystadlu am fusnes ffyrmlau cyfreithwyr. Er hynny, teimlwn ei bod yn bwysig bod darparwyr cyfrifon cleientiaid yn cadw'r disgrisiwn i beidio â chynnig y cynhyrchion hyn, er enghraifft, os nad oes ganddynt gwsmeriaid sy'n darparu gwasanaethau cyfreithiol.

Cwestiynau:

10. I ddarparwyr gwasanaethau cyfreithiol: yn eich profiad chi, ar hyn o bryd, pa mor hawdd neu anodd yw agor cyfrifon cleientiaid cyfun neu unigol?
11. I ddarparwyr cyfrifon cleientiaid (yn cynnwys darparwyr Cyfrifon a Reolir gan Drydydd Parti): a ydych yn rhag-weld unrhyw fanteision neu heriau wrth gyflwyno cynhyrchion bancio sy'n cwrdd â'r meini prawf a gynigir?
12. I ddarparwyr cyfrifon cleientiaid: A fydddech yn gallu darparu cyfrifon cleientiaid a fyddai'n gallu trosglwyddo'r swm priodol o log i mewn i'r cynllun? Sut byddai'r rhain yn gweithio?
13. Drwy ba broses y dylid penderfynu ar "gyfradd llog gyffelyb" ar gyfrifon cleientiaid?
14. Rydym yn cynnig y bydd llog yn cael ei gredydu i gyfrifon cleientiaid, a'i gasglu gan y cynllun, bob hyn a hyn (yn fisol neu'n chwarterol, er enghraifft). Pa mor aml y dylai hyn ddigwydd?
15. A oes unrhyw feini prawf eraill ar gyfer cyfrifon a fyddai'n cael eu hargymell i wneud i'r cynllun weithio yn ôl y bwriad?

Siart lif ar gyfer ffyrmlau

Unwaith y bydd arian y cleient wedi'i roi mewn cyfrif addas sy'n cwrdd â meini prawf y cynllunbyddai llog yn cael ei gredydu i'r cyfrif bob hyn a hyn, a byddai'r gyfran o'r llog sy'n ddyledus yn cael ei throsglwyddo'n awtomatig o'r cyfrif cleientiaid i gyfrif gweinyddwr y cynllun. Wedyn gall y darparwr reoli'r llog sy'n weddill yn y cyfrif yn y ffordd arferol.



Cwestiynau:

16. A ydych yn rhag-weld unrhyw anawsterau ymarferol gyda'r broses arfaethedig ar gyfer darparwyr gwasanaethau cyfreithiol?
17. A oes gennych unrhyw awgrymiadau am newidiadau a allai wella'r ffordd y mae'r model yn gweithio ar gyfer darparwyr gwasanaethau cyfreithiol?
18. A oes gennych unrhyw sylwadau eraill am broses y cynllun arfaethedig ar gyfer darparwyr gwasanaethau cyfreithiol?

Yr effaith ar ddarparwyr gwasanaethau cyfreithiol

Bydd y Llywodraeth yn cynnal a chyhoeddi dadansoddiad perthnasol ar effeithiau cynllun ILCA yn dilyn yr ymgynghoriad, yn seiliedig ar ddyluniad terfynol y cynllun. Er mwyn bwydo mewn i'r dadansoddiad hwnnw, rydym yn ceisio gwybodaeth bellach ar sut mae darparwyr

gwasanaethau cyfreithiol eisoes yn trin llog cyfrifon cleientiaid, a safbwyntiau ar sut all y cynllun arfaethedig effeithio arnynt.

Rydyn yn ceisio barn ar oblygiadau gweithredol ac ariannol i ddarparwyr gwasanaethau cyfreithiol o wahanol meintiau a meysydd ymarfer gwahanol. Wrth ddylunio'r cynllun ILCA, mae'r Llywodraeth yn awyddus i sicrhau ei fod yn fforddiadwy i ffyrmiau o wahanol meintiau, ac yn deg ar gyfer y sawl sy'n darparu gwahanol fathau o wasanaethau cyfreithiol. Er enghraifft, mae darparwyr llai yn creu llai o log ar gyfrifon cleientiaid na'r darparwyr mwyaf ac felly byddant yn talu llai o log o dan y cynllun arfaethedig. Fodd bynnag, maen nhw fel arfer yn gweithredu gydag elw llai hefyd. Yn yr un modd, gall darparwyr gwasanaethau cyfreithiol sy'n cynnig gwasanaethau trawsgludo gynhyrchu mwy o log ar gyfrifon cleientiaid na'r rhai sy'n arbenigo mewn ymgyswrttu. Gall yr effaith uniongyrchol ar ffyrmiau amrywio yn ddibynol ar p'un a yw eu polisïau eisoes yn dychwelyd yr holl log i gleientiaid, neu dim ond arian sy'n uwch na swm de minimis.

Gall y cynllun arfaethedig hefyd gyflwyno costau gweinyddol anuniongyrchol ar gyfer darparwyr gwasanaethau cyfreithiol. Gall y rhain gynnwys diweddarau polisïau a gweithdrefnau'r cwmni a symud eu cyfrifon cleientiaid i fanc sy'n bodloni gofynion y cynllun. Rydym yn ceisio barn ar beth all y costau ychwanegol hynny i ddarparwyr fod, a sut gellir ei lleihau.

Cwestiynau:

19. Yn eich ffyrm, faint o log sy'n cael ei gynhyrchu fel arfer ar arian cleient unigol, gan gynnwys:
 - a. Llog ar arian un cleient mewn cyfrif cleientiaid cyfun; a
 - b. Llog ar arian un cleient mewn cyfrif cleient unigol.
20. Pa gyfran o drosiant eich ffyrm sydd yn llog ar gyfrifon cleientiaid?
21. Beth mae'ch ffyrm yn ei wneud ar hyn o bryd gyda'r llog ar gyfrifon cleientiaid?
22. Ym mha ffordd y byddai'r cynllun, fel y gynigir, yn effeithio ar eich ffyrm?
23. Pa gostau anuniongyrchol/gweinyddol gallai'r cynllun eu hachosi i'ch ffyrm, a sut gallwn eu cyfyngu?

Yr effaith ar ddarparwyr cymorth cyfreithiol

Rydym yn cydnabod y pryderon a godwyd gan rai darparwyr cymorth cyfreithiol mewn perthynas â'r effaith bosibl o gynllun ILCA ar gynaliadwyedd gwasanaethau cymorth cyfreithiol. Mae rhanddeiliaid wedi awgrymu y byddai'r newidiadau arfaethedig yn gallu arwain at leihad yn nifer y gwasanaethau cymorth cyfreithiol a ddarperir, neu mewn rhai achosion, arwain at beidio â darparu eu gwasanaethau cymorth cyfreithiol yn gyfan gwbl.

Roedd nifer o ddarparwyr hefyd wedi nodi eu bod yn dibynnu ar y llog sy'n deillio o gyfrifon cleientiaid ac incwm o'u gwaith preifat i draws-sybsideiddio eu gwaith cymorth cyfreithiol ac i wrthweithio costau busnes cynyddol yn fwy cyffredinol.

Yng ngolwg y pryderon hyn, mae'r ymgynghoriad hwn yn ceisio casglu tystiolaeth am yr effaith bosibl o gynllun ILCA ar ddarparwyr cymorth cyfreithiol. Bydd o ddiddordeb neilltuo i ni ddeall sut byddai colli llog yn gallu dylanwadu ar y gallu i ddarparu gwasanaethau, ar staffio, ac ar y dichonoldeb o barhau i gynnig gwasanaethau cymorth cyfreithiol.

Cwestiynau:

24. A yw'ch ffyrm yn ymgymryd â gwaith cymorth cyfreithiol?

25. Os mai 'ydy' oedd yr ateb i'r cwestiwn blaenorol:

- a. Pa gyfran o drosiant eich ffyrm sy'n deillio o waith cymorth cyfreithiol?
- b. A fyddai'r cynllun arfaethedig yn effeithio ar eich gallu i ddarparu gwasanaethau cymorth cyfreithiol, ac i ba raddau?

3. Gweinyddu'r cynllun

Byddai'r cynllun yn cael ei oruchwylio a'i lywodraethu gan weinyddwr cynllun. Rydym yn cynnig y rolau canlynol ar gyfer gweinyddwr:


Gweinyddu cyffredinol	Cyllid	Monitro a gorfodi
Rheoli'r berthynas â'r sector gwasanaethau cyfreithiol a'r darparwyr cyfrifon (banciau/darparwyr cyfrifon a reolir gan drydydd parti) sy'n gysylltiedig â'r cynllun. Delio â chyfathrebu ar gyfer y cynllun, yn cynnwys darparu canllawiau a thrafod gohebiaeth berthnasol.	Rheoli'r arian a gasglwyd o gyfrifon gan y cynllun. Yn gyfrifol am gyfrifyddu a chyllidebu'r cynllun. Glynu wrth rwymedigaethau tryloywder ar incwm y cynllun. Gall gweinyddwr y cynllun fod yn gweithredu rhwydwaith o gyfrifon gweinyddwr, un gyda phob darparwr cyfrifon, y byddai arian y cynllun yn cael ei roi ar gadw ynddynt ar ôl ei gasglu.	Monitro trafodiadau ar gyfrifon cleientiaid i sicrhau cydymffurfiaeth. Cydweithio ag awdurdodau rheoleiddio i ddiogelu rhag diffyg cydymffurfio a thwyll ac i adrodd arnynt.


Rydym yn cynnig y byddai'r cynllun yn cael ei weinyddu gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder. Drwy redeg y cynllun yn "fewnol", sicrhair gweithredu amserol a llai o gymhlethdod

diangen a chostau i'r pwrs cyhoeddus. Mae'r model hwn hefyd yn adlewyrchu ymrwymiad y Llywodraeth i ddarparu mwy o wasanaethau'n "fewnol" heb sefydlu cyrff newydd os yw'n bosibl. Er hynny, fe allem ystyried a ddylai corff arall ymgymryd â'r cyfrifoldeb hwn ar ran y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn y dyfodol.

Gweinyddwr y cynllun byddai'n gyfrifol am reoli'r arian a gesglir gan gyfrifon cleientiaid, yr ydym yn ystyried dau fodel gwahanol ar ei gyfer. Mae'r model cyntaf yn cynnwys gweinyddwr y cynllun yn agor cyfrif gweinyddwr ei hun, gyda phob banc/sefydliad yn darparu cyfrifon cleientiaid i ddarparwyr gwasanaethau cyfreithiol. O dan y dull hwn (gweler y diagram isod), byddai llog y cynllun a gesglir gan gyfrifon cleientiaid o fewn y sefydliad hwnnw yn cael ei symud i'r cyfrif gweinyddwr o fewn yr un sefydliad yn y lle cyntaf. Yna byddai arian yn cael ei drosglwyddo o'r cyfrifon gweinyddwr i gyfrif canolog bob hyn a hyn. Trwy ledaenu llog y cynllun ar draws rhwydwaith o gyfrifon gweinyddwr, byddai'r gweinyddwr yn lleihau'r risgiau ariannol a diogelwch y gallai godi wrth ddal incwm y cynllun o fewn un sefydliad ariannol. Mae'n bosib y byddai hefyd yn cryfhau'r berthynas rhwng gweinyddwr y cynllun a darparwyr cyfrifon cleientiaid.

Fel dewis arall, rydym yn ystyried model mwy uniongyrchol, lle byddai'r llog priodol o'r holl gyfrifon cleientiaid perthnasol yn cael eu talu i mewn i un cyfrif canolog ar gyfer y cynllun (gweler y diagram isod). Byddai hyn o bosib yn lleihau'r baich ar ddarparwyr cyfrifon cleientiaid, oherwydd na fyddai'n rhaid iddynt ddarparu cyfrifon gweinyddwr. Gallai hefyd helpu i sicrhau bod cyflenwad mwy o gyfrifon cleientiaid cymwys ar gael ar y farchnad.





Rydym yn gofyn am farn ynghylch y ffordd y byddai gweinyddwr cynllun yn gallu bod o'r cymorth mwyaf i ddarparwyr gwasanaethau cyfreithiol a darparwyr cyfrifon cleientiaid sy'n rhan o'r cynllun, ac a fyddai hyn yn hwyluso unrhyw weithrediadau yn ychwanegol i'r rheini a gynigir.

Cwestiynau:

26. A ydych yn rhagweld amgylchiadau lle byddai angen i chi gael cymorth gan weinyddwr y cynllun?

27. Ar gyfer darparwyr cyfrifon cleientiaid: beth yw eich safbwyntiau ar y ddau fodel arfaethedig ar gyfer rheoli llog y cynllun: nifer o gyfrifon gweinyddwr ar draws sefydliadau ynteu un cyfrif canolog?

28. Rydym yn cynnig mai'r Weinyddiaeth Gyfiawnder fydd yn gweinyddu'r cynllun ar y dechrau. A ydych yn meddwl bod sefydliad a fyddai'n fwy addas i ymgymryd â'r rôl hon yn y dyfodol, a pham?

29. A oes gennych unrhyw sylwadau eraill am y rolau arfaethedig i weinyddwr y cynllun?

4. Monitro a gorfodi

Byddai gweinyddwr y cynllun yn gyfrifol am oruchwylio'r cynllun. Byddai sancsiynau priodol ar gael, sydd i'w pennu yn y dyfodol, ar gyfer darparwyr sydd heb gydymffurfio â gofynion y cynllun, yn ogystal ag unrhyw brosesau sydd eu hangen ar gyfer apelio. Fodd bynnag, mae'r rhan fwyaf o ddarparwyr gwasanaethau cyfreithiol yng Nghymru a Lloegr eisoes yn dod o dan ofynion am adrodd ar gyfrifon cleientiaid. Mae'r rhain yn cynnwys gofyniad i gadw cofnodion cyfrifyddu cywir o drafodiadau cleientiaid a gofyniad i gael adroddiad blynyddol gan gyfrifydd y gall rheoleiddwyr ei adolygu. Mae'r Llywodraeth yn awyddus i ddefnyddio arferion adrodd presennol y sector wrth weinyddu'r cynllun hwn lle bynnag y bo modd, er mwyn lleihau dyblygu ac osgoi gosod beichiau ychwanegol ar ddarparwyr.

Felly, rydym yn gofyn am sylwadau ynghylch pa weithgareddau adrodd ar arian cleientiaid y mae darparwyr yn eu cyflawni eisoes, a sut y gallem sicrhau dull o fonitro cydymffurfiaeth â'r cynllun sy'n drylwyr ac eto'n gymesur.

Cwestiynau:

30. Pa weithgarwch rydych yn ei gyflawni eisoes i adrodd ar gyfrifon cleientiaid a'r llog ar gyfrifon cleientiaid?
31. Sut y gallem sicrhau bod y dull o fonitro a gorfodi yn un cymesur ac effeithiol?

Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ar gyfer y Cynllun ILCA

Mae Adran 149 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010, sef Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus (PSED), yn darparu bod:

“Rhaid i awdurdod cyhoeddus, wrth arfer ei swyddogaethau, roi sylw dyladwy i'r angen i wneud y canlynol:

- (a) dileu gwahaniaethu, aflonyddu, fictimeiddio ac unrhyw ymddygiad arall sydd wedi ei wahardd gan y Ddeddf neu odani;
- (b) hybu cyfle cyfartal rhwng personau sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol a phersonau nad ydynt yn ei rhannu; ac
- (c) hybu perthynas dda rhwng personau sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol a phersonau nad ydynt yn ei rhannu.”

Rhaid i'r 'sylw dyladwy' gael ei ystyried yn erbyn y naw “nodwedd warchodedig” o dan Deddf Cydraddoldeb 2010 – sef hil, rhyw, anabledd, cyfeiriadedd rhywiol, crefydd a chred, oedran, priodas a phartneriaeth sifil, ailbennu rhywedd, beichiogrwydd a mamolaeth.

Ystyriaethau Cydraddoldeb

Gwahaniaethu Uniongyrchol

Nid yw'r cynllun ILCA arfaethedig yn gwahaniaethu'n uniongyrchol oherwydd nid yw'n trin pobl yn llai ffafriol oherwydd nodwedd warchodedig. Byddai'n berthnasol yn yr un modd i'r holl bartïon yr effeithir arnynt heb gyfeirio at unrhyw nodwedd warchodedig.

Gwahaniaethu Anuniongyrchol

Yn seiliedig ar y data sydd ar gael ar hyn o bryd, rydym yn ystyried bod y cynllun ILCA arfaethedig yn annhebygol o achosi gwahaniaethu anuniongyrchol. Ni ddisgwylir y byddai'n arwain at anfantais penodol i bobl sydd â nodwedd warchodedig o gymharu â'r bobl hynny sydd heb un. Er hyn, lle gall fod effeithiau anwastad, rydym wedi'u hasesu isod.

Petai darparwyr gwasanaethau cyfreithiol yn pasio costau'r cynllun ymlaen i gleientiaid, gallai fod effaith anghymser ar hawlwr gwasanaethau cyfreithiol sifil o gefndir Asiaidd/Asiaidd Prydeinig. Mae hyn oherwydd bod y grŵp hwn yn cynrychioli 14 y cant o'r

holl hawlwyrr gwasanaethau cyfreithiol sifil⁴ ond dim ond 9 y cant o boblogaeth Cymru a Lloegr.⁵ Gall y rhai hynny sydd ag incwm is (gan gynnwys pobl iau o dan 29 oed, a phobl o grwpiau ethnig lleiafrifol) hefyd fod yn fwy sensitif i'r newidiadau i gostau. Mae hyn oherwydd bod pobl iau yn fwy tebygol o fod ar incwm is o gymharu â phobl hŷn⁶ – ac oherwydd bod bwlch cyflog negyddol yn bodoli rhwng uniogolion o gefndiroedd ethnig lleiafrifol o gymharu â phobl o gefndir ethnig Gwyn.⁷

Er gwaethaf yr uchod, disgwylir y bydd risg o wahaniaethu uniongyrchol yn isel iawn. Mae hyn oherwydd bod llawer o ffyrmau cyfreithiol yn peidio â dychwelyd unrhyw log ar hyn o bryd, neu dim ond rhan o'r llog, i gleientiaid y mae eu cronfeydd yn cael eu dal mewn cyfrifon cyfun. Ac oherwydd bod cyfrifon cleientiaid cyfun fel arfer yn cael eu defnyddio ar gyfer trafodion llai, mae swm y llog a gynhyrchir fesul cleient yn debygol o fod yn isel. Mae llawer o gleientiaid gyda chyfrifon unigol, a ddefnyddir fel arfer ar gyfer trafodion mwy sy'n gallu cynhyrchu mwy o log, fel trafodion masnachol, hefyd yn fwy tebygol o feddu ar gapasiti ariannol uwch i ymdopi ag unrhyw gostau. Fodd bynnag, rydym yn croesawu gwybodaeth bellach ar y pwyntiau hyn fel rhan o'r ymgynghoriad (gweler adran 1 cwestiynau 7–9, ac adran 2 cwestiynau 19–21).

Petai'r ddarpariaeth o wasanaethau cymorth cyfreithiol yn lleihau oherwydd y cynllun, gallai'r rhai sy'n mwy tebygol o ddefnyddio'r gwasanaethau hynny, gan gynnwys pobl iau dan 44 oed (81 y cant o'r ddefnyddwyr) dynion (68 y cant), a phobl anabl (20 y cant), gael eu heffeithio'n arbennig. Rydym yn ceisio barn ar effeithiau'r cynllun arfaethedig ar ddarparwyr cymorth cyfreithiol (gweler adran 2 cwestiynau 24 a 25), y byddem yn eu hystyried yn ofalus.

Gwahaniaethu yn Codi o Anabledd a'r Ddyletswydd i wneud Addasiadau Rhesymol

Nid ydym yn ystyried y bydd risg o wahaniaethu oherwydd anabledd o ganlyniad i'r cynllun. Fodd bynnag, byddwn yn parhau i fonitro unrhyw effeithiau posib a sicrhau bod addasiadau rhesymol ar waith lle bo'n briodol i gefnogi defnyddwyr gydag anableddau.

Aflonyddu ac Erledigaeth

Nid ydym yn ystyried y bydd unrhyw risg o aflonyddu nac erledigaeth yn codi o'r cynigion hyn.

Gwella Cyfleoedd Cyfartal

Mae'r cynllun hwn yn annhebygol o wella cyfleoedd cyfartal yn uniongyrchol. Fodd bynnag, mae'r cynllun yn anelu at godi incwm i gryfhau'r system gyfiawnder, a all fod yn

⁴ Arolwg Defnyddwyr Llys Sifil – Y Weinyddiaeth Gyfiawnder, (2015)

⁵ Grŵp ethnig, Cymru a Lloegr – Y Swyddfa Ystadegau Gwladol

⁶ Enillion a oriau a weithiwyd, grŵp oedran: Tabl ASHE 6 – Y Swyddfa Ystadegau Gwladol

⁷ Bylchau cyflog yng nghyswllt ethnigrwydd: bylchau cyflog wedi'u haddasu – Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (2023)

fuddiol i grwpiau sy'n wynebu rhwystrau i gyfiawnder (fel cleientiaid o leiafrifoedd ethnig a chleientiaid anabl).

Meithrin Perthnasau Da

Nid oes gan y cynllun unrhyw effaith a ragwelir o ran y perthnasau rhwng y sawl sy'n rhannu nodweddion penodol a'r sawl nad ydynt yn eu rhannu. Nid ydym yn ystyried bod cwmpas o fewn y cynllun i greu unrhyw fesurau perthnasol o'r fath.

Mae eich safbwyntiau yn bwysig

Rydym yn ceisio eich safbwyntiau a thystiolaeth ar ystyriaethau cydraddoldeb. Byddwn yn adolygu'r asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb uchod ar ôl i ni dderbyn adborth ar yr ymgynghoriad hwn, i gyfarwyddo dyluniad terfynol cynllun ILCA.

Cwestiynau:

32. Beth ydych chi'n ystyried fydd effeithiau cydraddoldeb y cynllun ILCA arfaethedig ar unigolion sydd â nodweddion gwarchodedig (os o gwbl)?
33. A oes tystiolaeth bellach (gan gynnwys data, neu astudiaethau achos mewn awdurdodaethau eraill) y gallwch eu rhannu a allai gyfarwyddo ein dadansoddiad cydraddoldeb ar gyfer y cynllun arfaethedig?
34. A oes mathau o liniariadau yng nghyswllt effeithiau ar gydraddoldeb y dylem eu hystyried?

Holiadur

Byddwn yn falch o dderbyn ymatebion i'r cwestiynau canlynol sydd wedi'u cynnwys yn y papur ymgynghori hwn.

1. A oes gennych unrhyw safbwyntiau ar gwmpas arfaethedig y cynllun?
2. Oni bai am weithgareddau cyfreithiol neilltuedig, a oes unrhyw waith arall a wneir gan ddarparwyr gwasanaethau cyfreithiol sy'n cynnwys dal arian cleientiaid? A ddylai hyn fod o fewn neu tu allan i gwmpas y cynllun?
3. A oes mathau eraill o gyfrifon a ddefnyddir ar gyfer dal arian cleientiaid y dylent fod o fewn cwmpas y cynllun?
4. A oes unrhyw fathau o gyfrifon unigol a ddefnyddir ar gyfer dal arian cleientiaid na ddylid eu cynnwys yng nghwmpas cynllun ILCA? A pham?
5. Rydym yn cynnig y dylai'r cynllun gadw canran uwch o log a gynhyrchir gan gyfrifon cleientiaid cyfun (75–100 y cant), a chyfradd is o 50 y cant o'r llog ar gyfrifon cleientiaid unigol. A oes gennych unrhyw sylwadau am y cyfraddau hyn?
6. A ydych chi'n rhagweld unrhyw anawsterau gyda chadw'r rheolau presennol ar log cleientiaid ar waith, ar gyfer y llog nad yw wedi'i sicrhau gan y cynllun?
7. Ar gyfer gwaith cyfreithiol a wneir ar eich rhan fel cleient, ydych chi wedi derbyn (neu ydych chi'n disgwyl derbyn) llog ar eich arian?
8. Os ydych chi wedi ateb 'ydw' i'r cwestiwn blaenorol, faint o log ydych chi wedi'i dderbyn/rydych chi'n disgwyl ei dderbyn?
9. A oes unrhyw effeithiau o'r cynllun arfaethedig ar gleientiaid nad ydym wedi'u hystyried?
10. Ar gyfer darparwyr gwasanaethau cyfreithiol: pa mor hawdd neu anodd ydych chi'n ei chael hi ar hyn o bryd i agor cyfrifon cleientiaid cronedig neu unigol?
11. Ar gyfer darparwyr cyfrifon cleientiaid (gan gynnwys darparwyr Cyfrifon a Reolir gan Drydydd Parti): a ragwelir unrhyw fanteision neu heriau gyda chyflwyno cynhyrchion bancio gyda'r meini prawf penodol a gynnigir?

12. Ar gyfer darparwyr cyfrifon cleientiaid: A fydddech chi'n gallu cynnig cyfrifon cleientiaid a allai drosglwyddo'r swm priodol o log i'r cynllun yn awtomatig? Sut fyddent yn gweithio?
13. Trwy ba broses y dylid pennu "cyfradd gymharol" o log ar gyfrifon cleientiaid?
14. Rydym yn cynnig bod llog yn cael ei gredydu i gyfrifon cleientiaid, a'i gasglu gan y cynllun, yn rheolaidd (megis yn fisol neu'n chwarterol). Beth ddylai'r amllder hwnnw fod?
15. A oes meini prawf cyfrifon eraill ar gyfer y cyfrifon a fyddai'n cael eu hargymell i wneud i'r cynllun weithio fel y bwriadwyd?
16. A ydych chi'n rhagweld unrhyw anawsterau ymarferol gyda'r broses arfaethedig ar gyfer darparwyr gwasanaethau cyfreithiol?
17. A oes gennych unrhyw awgrymiadau ar gyfer newidiadau a allai wella sut mae'r model yn gweithio ar gyfer darparwyr gwasanaethau cyfreithiol?
18. A oes gennych unrhyw farn arall ar y broses gynllun arfaethedig ar gyfer darparwyr gwasanaethau cyfreithiol?
19. Yn eich cwmni, faint o log sy'n cael ei gynhyrchu fel arfer ar gronfeydd un cleient gan gynnwys:
 - a. Ar gronfeydd un cleient mewn cyfrif cleient cronedig; a
 - b. Ar gronfeydd un cleient mewn cyfrif cleient unigol.
20. Pa gyfran o drosiant eich cwmni sy'n deillio o log cyfrifon cleientiaid?
21. Beth mae eich cwmni'n ei wneud ar hyn o bryd gyda llog cyfrifon cleientiaid?
22. Sut fyddai'r cynllun, fel y'i cynigiwyd, yn effeithio ar eich cwmni?
23. Pa gostau anuniongyrchol/gweinyddol y gallai'r cynllun eu rhoi ar eich cwmni a sut allwn ni eu cyfyngu?
24. A yw eich cwmni'n cynnal gwaith cymorth cyfreithiol?
25. Os ydych chi wedi ateb 'ydy' i'r cwestiwn blaenorol:
 - a. Pa gyfran o drosiant eich cwmni sy'n deillio o waith cymorth cyfreithiol?
 - b. A fyddai'r cynllun arfaethedig yn effeithio ar eich darpariaeth o wasanaethau cymorth cyfreithiol, ac i ba raddau?

26. A ydych chi'n rhagweld amgylchiadau lle byddai angen i weinyddwr y cynllun eich cynorthwyo?
27. Ar gyfer darparwyr cyfrifon cleientiaid: beth yw eich barn ar y ddau fodel arfaethedig ar gyfer rheoli llog y cynllun: cyfrifon gweinyddwyr lluosog ar draws sefydliadau yn hytrach nag un cyfrif canolog?
28. Rydym yn cynnig bod y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn gweinyddu'r cynllun i ddechrau. A ydych chi'n credu bod sefydliad mwy addas i ymgymryd â'r rôl hon yn y dyfodol, a pham?
29. Oes gennych chi unrhyw sylwadau eraill ar rolau arfaethedig gweinyddwr y cynllun?
30. Pa weithgarwch adrodd ydych chi eisoes yn ei wneud ar gyfrifon cleientiaid a buddiannau cyfrifon cleientiaid?
31. Sut allwn ni sicrhau bod dull o fonitro a gorfodi yn gymesur ac yn effeithiol?
32. Beth yw eich barn chi am effeithiau cydraddoldeb y cynllun ILCA arfaethedig ar unigolion â nodweddion gwarchodedig (os o gwbl)?
33. A oes tystiolaeth bellach (gan gynnwys data, neu astudiaethau achos mewn awdurdodaethau eraill) y gallwch chi ei rhannu a allai lywio ein dadansoddiad cydraddoldeb ar gyfer y cynllun arfaethedig?
34. A oes mathau o liniaru mewn perthynas ag effeithiau cydraddoldeb y dylem eu hystyried?

Diolch am gymryd rhan yn yr ymgynghoriad hwn.

Gwybodaeth amdanoch chi

Defnyddiwch yr adran hon i gyflwyno gwybodaeth amdanoch chi

Enw llawn	
Teitl swydd neu ym mha rinwedd rydych yn ymateb i'r ymgynghoriad hwn (e.e. aelod o'r cyhoedd etc.)	
Dyddiad	
Enw'r cwmni/sefydliad (os yw'n berthnasol):	
Cyfeiriad	
Cod post	
Os hoffech chi i ni gydnabod ein bod wedi derbyn eich ymateb, ticiwch y blwch hwn	☐ (ticiwch y blwch)
I ba gyfeiriad y dylid anfon y gydnabyddiaeth, os yw'n wahanol i'r uchod	

Os ydych yn cynrychioli grŵp, rhowch enw'r grŵp hwnnw i ni, os gwelwch yn dda, gyda disgrifiad cryno o'r bobl neu'r sefydliadau rydych yn eu cynrychioli.

Manylion cyswllt/Sut i ymateb

Anfonwch eich ymateb erbyn 09/02/2026:

Additional Funding Team
Ministry of Justice
102 Petty France
London SW1H 9AJ

E-bost: Additionalfundingconsultation@justice.gov.uk

Cwynion neu sylwadau

Os oes gennych unrhyw gwynion neu sylwadau ynghylch y broses ymgynghori, dylech gysylltu â'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn y cyfeiriad uchod.

Copïau ychwanegol

Gellir cael copïau papur ychwanegol o'r ymgynghoriad hwn o'r cyfeiriad hwn ac mae hefyd ar gael ar-lein yn <https://consult.justice.gov.uk/>.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael mewn fformatiau eraill drwy wneud cais i additionalfundingconsultation@justice.gov.uk

Grwpiau cynrychiadol

Gofynnir i grwpiau cynrychiadol roi crynodeb o'r bobl a'r sefydliadau y maent yn eu cynrychioli wrth ymateb.

Cyfrinachedd

Gellir cyhoeddi neu ddatgelu gwybodaeth a roddir wrth ymateb i'r ymgynghoriad hwn, gan gynnwys gwybodaeth bersonol, yn unol â'r trefniadau mynediad at wybodaeth (sef, yn bennaf, Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, Deddf Diogelu Data 2018, y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (UK GDPR) a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004).

Os ydych am i'r wybodaeth a ddarperir gennych gael ei thrin yn gyfrinachol, rhaid i ni eich atgoffa bod Cod Ymarfer statudol o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 y mae'n rhaid i

awdurdodau cyhoeddus gydymffurfio ag ef sy'n ymwneud, ymhlith pethau eraill, ag ymrwymïadau cyfrinachedd. Oherwydd hyn, byddai'n fuddiol pe gallech esbonio wrthym pam eich bod yn credu bod yr wybodaeth a ddarparwyd gennych yn gyfrinachol. Os cawn gais am ddatgelu'r wybodaeth, rhoddwn ystyriaeth lawn i'ch esboniad, ond ni allwn roi sicrwydd y bydd modd cadw cyfrinachedd o dan bob amgylchiad. Ni fydd ymwadiad cyfrinachedd awtomatig a gynhyrchir gan eich system TG chi yn cael ei ystyried yn un sydd, ar ei ben ei hun, yn rhwymo'r Weinyddiaeth.

Bydd y Weinyddiaeth yn prosesu eich data personol yn unol â Deddf Diogelu Data 2018 ac, yn y rhan fwyaf o amgylchiadau, bydd hyn yn golygu na chaiff eich data personol eu datgelu i drydydd partïon.

Egwyddorion ymgynghori

Mae'r egwyddorion a ddylai gael eu mabwysiadu gan adrannau Llywodraeth a chyrff cyhoeddus eraill ar gyfer ymgysylltu â rhanddeiliaid wrth ddatblygu polisi a deddfwriaeth wedi cael eu hamlinellu yn Egwyddorion Ymgynghori Swyddfa'r Cabinet 2018, sydd ar gael yma:

https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/691383/Consultation_Principles__1_.pdf

E03497892

978-1-5286-6151-5